



YN ÔL TRUED RICHARD BURTON

Wrth ddilyn y daiith gerdded hon, gofawch eich bod wedi parato'n briodol trwy ddilyn y Côd Cefn Gwlad, a fydd yn eich helpu i sicrhau ymweliad diogel ac i gadw'n hamgylchedd a'n cymunedau mewn cof. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.naturalresources.wales/countrysidecode.



**CALON DDRAMATIG
CYMRU**

Castell-nedd Porf Talbot

dramaticheart.wales

TRYWYDD RICHARD BURTON

Man cychwyn: Maes Parcio Rhyslyn, Pontrhydyfen, Parc Coedwig Afan

Hyd: 3 milltir

Amser: 1 - 2 awr

Parcio: Maes Parcio Rhyslyn. Dilynwch yr arwyddion o'r A4107

Bwyd a Lluniaeth: Mae amrywiaeth o fannau i gael bwyd a diod ym Mharc Coedwig Afan a phentref Cwmafan. Mae cyfleusterau cyhoeddus ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan.


Wrth ddilyn y trywydd hwn byddwch chi'n cerdded yn ôl traed mab enwocaf Port Talbot, Richard Burton CBE, enillydd Oscar. Ganed Richard Burton ym mhentref Pontrhydyfen ar 10 Tachwedd 1925, yn fab i löwr o Gymro, ac nid anghofiodd ei wreiddiau byth. Yr enw a roddwyd iddo adeg ei eni oedd Richard Walter Jenkins, a bu'n byw ym Mhontrhydyfen nes ei fod bron yn 2 oed, pryd y symudodd i Daibach ym Mhort Talbot wedi i'w fam farw.

Cafodd ei gariad at farddoniaeth a llenyddiaeth ei hybu gan gefnogaeth ac ysbrydolaeth ei Ysgolfeistr (Philip H. Burton) a bu'n rhagori mewn cynrychiadau yn yr ysgol, yn ogystal ag ennill gwobr yn yr Eisteddfod pan oedd yn canu soprano'n fachgen.

Chwaraeodd Philip Burton ran aruthrol yng nghynnydd Richard, a bu'n meithrin ei ddoniau ac yn gofalu amdano. Byddai Richard a Phillip yn cerdded yn rheolaidd yn y mynyddoedd uwchben Port Talbot, ac yn perfformio ymarferion lleisiol i wella tafliad y llais, gan weiddi a chanu mor uchel ag y gallent. Yn ddiweddarach, mabwysiadodd Richard y cyfenw Burton a datblygu gyrfa actio lwyddiannus.

Gallwch chi estyn eich taith gerdded i ail ddiwrnod ac ymweld â thref ddiwydiannol Port Talbot lle treuliodd Richard ei blentyndod pan aeth i fyw at y teulu yn Nhaibach. Yma fe welwch sut ysbrydolwyd Richard gan y cyferbyniad rhwng tirwedd gwyrdd Pontrhydyfen a thirwedd diwydiannol Taibach i ddod yn actor mor rhagorol.





Y LLWYBR

O'r fynedfa i faes parcio Rhyslyn, cerddwch ar hyd yr heol uchaf a throï i'r chwith at y draphont ddŵr **1**.

Ar ôl croesi'r draphont ddŵr trowch i'r dde, i lawr y grisiau. Fe ewch heibio i'r troad i Stryd Pen-hydd **2**. lle roedd llawer o deulu Richard yn arfer byw. Dilynwch y lôn a cherdded trwy faes chwarae'r plant. Gyda'r ysgol o'ch blaen, trowch i'r chwith, ac yna i'r dde. Dilynwch y llwybr, gan gadw wal yr ysgol ar eich llaw dde. Pan ddewch at gyffordd lle mae'n rhaid troi, ewch i'r chwith i lawr y grisiau, ac yna i'r dde at y draphont **3**.

Wrth y groesffordd, trowch i'r dde i lawr y rhiw. Croeswch y brif ffordd, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd. Croeswch y bont ddur ar eich llaw chwith a mynd ymlaen i fyny'r grisiau. O'r gyffordd lle mae'n rhaid troi, gallwch chi ddilyn y llwybr yn ôl i'r maes parcio i gwblhau'r daith gerdded fer. Os hoffech daith hwy, trowch i'r dde i lawr y grisiau ac i'r chwith lle mae'r trywydd yn parhau nes i chi gyrraedd y fainc portreadau **4**; gyda Phonrhydyfen y tu ôl i chi, o'r chwith i'r dde, mae'r cerfluniau'n

portreadu Richard Burton, y comediwr lleol Rob Brydon a Dick Wagstaff, sydd bellach wedi ymddeol o waith Ceidwad Parc Coedwig Afan.

Ewch yn ôl ar hyd y llwybr. Wrth gyrraedd y ffordd, ewch i'r dde ar hyd Oakwood Avenue. Dilynwch y ffordd wrth iddi droi i'r dde. Mae Capel Bethel **5** ar y gornel bellaf. Yn fuan wedi i Richard farw, cynhaliwyd gwasanaeth coffa yma, gyda channoedd o bobl leol a lluo o enwogion yn bresennol. Ewch ymlaen i gyfeiriad y draphont ddŵr ac yn ôl i faes parcio Rhyslyn.

MANNAU O DDIDDORDEB

1 Traphont ddŵr Pontrhydyfen

Mae traphont ddŵr Pontrhydyfen i'w gweld mewn delweddau enwog o Richard Burton yn cerdded ar draws y strwythur yn ystod y 1950au. Adeiladwyd y draphont ddŵr yn 1842 gan y meistr haearn John Reynolds i gyflenwi'r olwynion dŵr yng Ngwaith Haearn Oakwood gerllaw, ac mae'n un o'r ychydig strwythurau cysylltiedig â defnyddio pŵer dŵr yn y diwydiant haearn sydd wedi goroesi yn y rhanbarth. Cerddwch ar draws y draphont ddŵr, yn union fel y gwnaeth Richard Burton, a chenedlaethau o bobl leol, i weld golygfeydd o'r pentref islaw. Mae'r tai yn ymyl y ffordd ar yr ochr dde yn nodi man geni Richard (sylwer na nodir yr union dŷ er mwyn diogelu preifatrwydd y preswylwyr presennol).

2 Stryd Pen-hydd

Stryd yng nghanol y pentref lle roedd llawer o deulu Richard yn byw yn ystod ei blentyndod. Byddai Richard wedi dod yn ôl i ymweld â'i deulu ar hyd ei fywyd.

3 Traphont y Rheilffordd

Adeiladwyd y strwythur hwn yn 1897 i gario Rheilffordd Mwynau De Cymru a'i chargo i'r dociau ym Mhort Talbot. Oddi yma gallwch chi werthfawrogi'r golygfeydd o'r pentref a'r cwm y tu hwnt.

4 Mainc Portreadau

Er cof am Richard Burton ac eraill, gosodwyd y fainc yn deyrnged i rai sy'n hanu o'r ardal neu sydd wedi cyfrannu at y gymuned yma. Wrth y fainc portreadau fe welwch amlinellad o Richard Burton, y comediwr lleol Rob Brydon a Dick Wagstaff, cymeriad lleol sydd bellach wedi ymddeol o waith Ceidwad Parc Coedwig Afan.

5 Capel Bethel

Pan fu farw, cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Richard Burton yng Nghapel Bethel. Roedd cannoedd o bobl leol a lluo o enwogion o wahanol gyfnodau ei fywyd yn bresennol.

4

